Rheolwr Ymgysylltu â'r Diwydiant - Cymru — Disgrifiad o'r Swydd

Dyddiad adolygu	Chwefror2026
Statws y swydd	Llawnamser – Parhaol
Lleoliad	Gweithio gartref gydag amgylchedd gwaith hyblyg (Byddai'n well gennym fod deiliad y swydd wedi'i leoli yng Nghymru ond nid yw'n hanfodol)
Tîm	Tîm Ymgysylltu â'r Diwydiant
Rheolwr Llinell	Pennaeth Ymgysylltu â'r Diwydiant

1. Diben y Swydd

Mae'r rôl hon yn gyfrifol am gefnogi'r diwydiant bwyd môr yng Nghymru drwy arwain a datblygu mentrau sydd o fudd i'r gadwyn gyflenwi bwyd môr. Cyflawnir hyn drwy adeiladu a chynnal perthnasoedd cryf â busnesau bwyd môr, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol megis Llywodraeth Cymru, cyrff llywodraeth eraill, sefydliadau partner yn y sector cyhoeddus a sefydliadau academaidd. Drwy feithrin y cysylltiadau hyn, nod y rôl yw ehangu cyrhaeddiad ein cymorth a gosod Seafish fel cyfrannwr gwerthfawr i'r diwydiant, gan sbarduno twf economaidd ac ychwanegu gwerth ar draws ffrydiau gwaith â blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol.

2. Dimensiynau

- Meithrin a chynnal cysylltiadau â busnesau ar draws cadwyn gyflenwi'r sector bwyd môr yng Nghymru, ynghyd â chysylltiadau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau partner, cyrff cyhoeddus perthnasol, a sefydliadau sydd ddim yn y diwydiant ei hun (e.e. academia). Y nod yw sicrhau bod cymaint â phosibl o sefydliadau'n ymgysylltu â'n gwaith, a gwneud yn siŵr bod rhanddeiliaid allweddol yn deall yr hyn a wnawn a'u bod yn gysylltiedig â'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd o'r budd mwyaf iddyn nhw.
- Cynrychioli Seafish yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru, gan weithredu fel y prif gyswllt i helpu rhanddeiliaid y diwydiant bwyd môr i ddeall yr hyn a wnawn a sut mae'n ychwanegu gwerth. Bod yn brif gyswllt ar gyfer ymholiadau cyffredinol; hyrwyddo cyfleoedd ariannu; ehangu cyrhaeddiad ein gwasanaethau; a gwella barn rhanddeiliaid tuag at Seafish.
- Rheoli'r berthynas â Phwyllgor Cynghori Seafish yng Nghymru a chynnal cwmpas priodol o aelodau ymgysylltiedig i gael cipolwg ar y diwydiant; gwella eiriolaeth ar gyfer ein gwaith; a sicrhau bod Seafish yn cael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau lleol y diwydiant sy'n cyd-fynd ag amcanion ein Cynllun Corfforaethol.
- Casglu a rhannu dealltwriaeth ar anghenion, heriau a chyfleoedd esblygol y diwydiant fel y gall Seafish gynnig cymorth perthnasol a gwerthfawr ar lefel leol a chenedlaethol.
- Cynnig cyngor o safon i fusnesau bwyd môr a rhanddeiliaid lleol y diwydiant ar yr arian sydd ar gael a chymhwysedd prosiectau neu elfennau mewn prosiectau sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy'r diwydiant bwyd môr a'r cymunedau lleol y mae'n eu cefnogi.
- Ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid y diwydiant bwyd môr trwy gyfarfodydd personol ac o bell, gan sicrhau presenoldeb helaeth ledled Cymru.
- Datblygu perthnasoedd cryf yn y gwaith gyda thimau mewnol er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau allweddol a fydd o fudd i Gymru a chyfrannu at brosiectau er mwyn helpu i sicrhau bod ein hallbynnau'n cael eu gwerthfawrogi yng Nghymru ac yn cael cefnogaeth briodol gan y diwydiant.
- Cyfrannu at ddatblygiad parhaus ein hyb o adnoddau Seafish gan ein helpu i wella ein dealltwriaeth o randdeiliaid y diwydiant a sut rydyn ni'n rheoli ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn Seafish.
- Hwyluso cysylltiadau rhwng cyd-weithwyr a chysylltiadau allanol i wneud y mwyaf o gyfleoedd o ran gwasanaethau ac ymgysylltu.
- Rheoli, cefnogi, cynnal a mynychu digwyddiadau sy'n helpu i gyflawni amcanion y swydd.
- Rheoli prosiectau sy'n darparu budd yn benodol yng Nghymru, gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau a rheoli'r gyllideb ar gyfer cyllidwyr.

3. Atebolrwydd

- Gweithio'n agos gyda holl dimau Seafish i ddeall a hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau Seafish, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth a'r cymorth perthnasol.
- Monitro a rhannu tueddiadau, blaenoriaethau a heriau'r diwydiant er mwyn llywio gwaith Seafish a gwella'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid.
- Bod yn llysgennad i Seafish trwy gynnal a mynychu digwyddiadau, hwyluso cyfarfodydd, a lledaenu gwybodaeth trwy sianeli ymgysylltu digidol ac uniongyrchol.
- Cynnal presenoldeb cryf ledled Cymru drwy deithio'n rheolaidd a rheoli dyddiaduron yn effeithiol er mwyn ymgysylltu â chymaint â phosibl o randdeiliaid.
- Gweithio gyda chyd-weithwyr i helpu i sicrhau bod ein gweithgareddau yn bodloni anghenion rhanddeiliaid ac yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol iddyn nhw, gan wneud cyflwyniadau fel y bo'n briodol.
- Cyfrannu at waith gan ei gwneud yn haws i fusnesau bwyd môr gael mynediad at y gwaith sydd o'r budd mwyaf iddyn nhw a chynnal data o safon am randdeiliaid yn unol â gofynion GDPR.
- Paratoi adroddiadau llafar ac ysgrifenedig a rhoi cyflwyniadau a diweddariadau ar gynnydd yn fewnol ac i amrywiaeth o randdeiliaid allanol a fforymau'r diwydiant.
- Cyflawni gwaith yn llwyddiannus ar draws ystod eang o amcanion a rhoi diweddariadau rheolaidd i Bennaeth y Tîm ar weithgareddau a'r effaith a gyflawnwyd.
- Sicrhau bod yr holl waith a gaiff ei wneud yn cydymffurfio â pholisïau, safonau a gofynion rheoleiddio'r sefydliad.

4. Cynllunio a threfnu

- Bydd y cynllun gwaith blynyddol yn cael ei gytuno gan Weithrediaeth Seafish a Phennaeth y Tîm, gyda
  chanlyniadau targed yn cael eu cytuno ar y cyd bob mis.
- Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am gynllunio, trefnu a blaenoriaethu'n effeithiol cyflawni ei lwyth gwaith ei hun yn fisol, yn wythnosol ac yn ddyddiol, a fydd yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau wedi'u cynllunio a gweithgareddau adweithiol.
- Bydd deiliad y swydd yn cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd gweithgareddau ac yn mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chyd-weithwyr Seafish a sefydliadau partner yn ôl yr angen.

5. Gwneud penderfyniadau a barn

- Bydd disgwyl i ymatebion i faterion sy'n codi a cheisiadau am gymorth fod yn ddadansoddol, yn ddiplomyddol, yn bendant ac yn gynhwysol. Bydd yr atebion a gaiff eu cynnig yn ymwneud â chytundeb consensws ar y ffordd orau ymlaen. Bydd deiliad y swydd yn gallu gwneud penderfyniadau gyda barn gadarn a synnwyr da o ran pryd i uwchgyfeirio materion a cheisio cefnogaeth a mewnbwn ehangach gan Bennaeth y Tîm a Gweithrediaeth Seafish.
- Bydd gan ddeiliad y swydd lefel gymedrol o ymreolaeth ar wneud penderfyniadau, felly bydd yn rhaid defnyddio barn bersonol a chymryd cyfrifoldeb personol am y penderfyniadau a gaiff eu gwneud.
- Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio ar ei gorn ei hun, nodi risgiau, a chynnig atebion i gadw'r gwaith o gyflawni amcanion ar y trywydd iawn.
- Bydd yn gallu gweithio heb fawr o oruchwyliaeth a gweithio ar ei gorn ei hun i ddatrys problemau o ddydd i ddydd wrth ymateb i geisiadau'r diwydiant neu rai mewnol.
- Gan weithio ar ei ben ei hun yn aml, bydd angen yr hyder a'r gallu ar ddeiliad y swydd i ymateb i amgylchiadau sydd heb gael eu rhagweld ar fyr rybudd.

6. Perthynas waith hanfodol

Perthynas fewnol

- Bydd deiliad y swydd yn adrodd i'r Pennaeth Ymgysylltu â'r Diwydiant a bydd yn gweithio'n agos gyda holl aelodau'r timau Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Bydd hefyd yn cydweithio â rhwydwaith eang o gyd-weithwyr yn Seafish i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu hymgysylltu'n effeithiol ac i gyflawni prosiectau a gwasanaethau sy'n berthnasol i ddiwydiant bwyd môr Cymru yn llwyddiannus.
- Bydd yn gweithio'n agos gyda chyd-weithwyr perthnasol eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith i'n helpu i sefydlu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) effeithiol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddatblygu ein hyb o adnoddau ymhellach er mwyn hwyluso'r broses gyson o ymgysylltu â rhanddeiliaid gan holl dimoedd Seafish.

Perthynas allanol

- Bydd deiliad y swydd yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd gwaith da gyda rhwydwaith eang o fusnesau bwyd môr, cynrychiolwyr y diwydiant, partneriaid perthnasol yn y sector cyhoeddus, a rhanddeiliaid y diwydiant bwyd môr ledled y DU.
- Bydd angen rhwydweithio ym mhob sector o'r diwydiant bwyd môr, gan fod yn llysgennad effeithiol i Seafish a chodi proffil y cymorth y gallwn ei gynnig.

7. Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad personol

Hanfodol

- Dealltwriaeth eang o'r diwydiant bwyd môr, wedi'i hennill trwy addysg ffurfiol hyd at lefel raddedig, profiad ymarferol, neu lwybrau eraill.
- Gwybodaeth am gadwyn gyflenwi'r sector bwyd môr yng Nghymru, neu brofiad o weithio yn y maes, yn ogystal â dealltwriaeth gref o brif faterion y sector ac egwyddorion cynaliadwyedd (masnachol ac amgylcheddol).
- Yn gallu dangos ei fod yn gallu ymgysylltu a chydweithio'n effeithiol â rhanddeiliaid amrywiol ar draws sawl sector, gan gynnwys rhanddeiliaid y diwydiant, llywodraeth, asiantaethau datblygu a sefydliadau ymchwil.
- Profiad o feithrin a chynnal cysylltiadau cynhyrchiol wrth lywio deinameg diwydiant cymhleth.
- Yn meddu ar sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid rhagorol, gyda'r gallu i reoli safbwyntiau a diddordebau cystadleuol yn ddiplomyddol fel hwylusydd medrus. Yn gallu dangos ei fod yn gallu cydlynu rhaglenni gwaith cymhleth, gan fabwysiadu dull hunangynhaliol o reoli amrywiaeth o weithgareddau. Yn hyn o beth, dylai allu canolbwyntio ar ddatrys problemau, rheoli risg, cyflawni canlyniadau, dangos effaith, a bodloni gofynion rhanddeiliaid.
- Sgiliau rhagorol o ran trefnu, cynllunio a rheoli prosiectau, gyda phrofiad o reoli cyllidebau hyd at £75k a chynnal prosiectau yn llwyddiannus o fewn amserlenni y cytunwyd arnyn nhw. Yn gallu cyflwyno canlyniadau ac allbynnau y cytunwyd arnyn nhw wrth weithio'n annibynnol, gyda sgiliau dadansoddi cryf a meddylfryd datrys problemau.
- Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn fedrus ar draws holl lefelau'r byd busnes, ac yn gallu rhoi cyflwyniadau deniadol gan ddefnyddio meddalwedd mewn cyfarfodydd rhithwir a phersonol.
- Sgiliau ysgrifennu ac adrodd effeithiol.
- Yn gallu defnyddio Microsoft Office a Microsoft Teams yn fedrus.

Dymunol

- Gwybodaeth am sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector bwyd môr yng Nghymru, awdurdodau, a rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant bwyd môr sydd ddim yn seiliedig ar y diwydiant.
- Yn gallu profi ei fod yn gallu dylanwadu a meithrin partneriaethau gyda chyrff cyhoeddus a chynrychiolwyr ar draws amrywiol sefydliadau.
- Gwybodaeth am fframweithiau rheoleiddio a chydymffurfio Cymru.
- Profiad o reoli data rhanddeiliaid a/neu ddefnyddio system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM).

8. Nodweddion arbennig

- Bydd y swydd wedi'i lleoli gartref a bydd yn golygu teithio'n aml ledled Cymru a ledled y DU, yn bennaf i swyddfeydd Seafish yng Nghaeredin a Grimsby.
- Rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar drwydded yrru lawn y DU a bydd yn ymgymryd â swm 'cymedrol i sylweddol' o yrru wrth gyflawni ei swydd.
- Bydd angen ymweld â glanfeydd, gweithfeydd prosesu ac, o bosibl, ffermydd pysgod. Efallai y bydd angen mynd, yn achlysurol, ar fwrdd cychod pysgota, sy'n gofyn am lefel dda o ffitrwydd corfforol. Yn ddelfrydol, dylai fod gennych ymwybyddiaeth sylfaenol o arferion diogelwch, ond caiff hyfforddiant ar weithio mewn porthladdoedd ac o'u cwmpas ei gynnig, a hefyd hyfforddiant ar sut i fynd ar fwrdd cychod pysgota.
- Efallai y bydd angen teithio dramor o dro i dro.